

❖ GAIR YR ADFENT

Dyma ni, unwaith eto, yng nghyfnod yr Adfent, y cyfnod o bedair wythnos pan fydd yr Eglwys Gristnogol yn troi ei meddwl at y Nadolig a dathlu'r 'baban bach mewn preseb drosom ni'.

Mae'n gyfnod cyffrous ac eneiniedig i Gristnogion. Yng ngwledydd y Gorllewin, y mae'n ganol gaeaf, a dyma gyfnod y goleuni 'sy'n disgleirio yn y tywyllwch'. Yng ngeiriau Paul: 'Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio' (Rhufeiniaid 13:12). Dyna pam y byddwn yn cynnau canhwyllau, arwyddion o oleuni cyn bod 'y goleuni', sef Iesu, yn dod i'r byd.

Dyma gyfnod rhyddhad, cyfle i gofio eto am un a ddaeth a fyddai'n gosod y ddynolryw yn rhydd o bob peth sy'n ein caethiwo. 'O tyred di, Emanwêl, a datod rwymau Isrâel.' Mewn byd lle mae cymaint mewn caethiwed – yn garcharorion cydwybod, wedi eu herwgipio, yn byw mewn braw a dychryn oherwydd rhyfel a thrais, yn cael eu poenydio, yn gaeth i newyn, tlodi a gorthrwm, yn gaeth i gyffuriau ac alcohol, i iselder meddwl ac ysbryd – y mae Duw'r Adfent yn cynnig posibilrwydd rhyddid mewn byd cyfiawn a theg a di-drais, yn cynnig ein gosod ni'n rhydd drwy Iesu, yr unig ddyn rhydd, chwedl Pennar.

Yn bennaf oll, dyma gyfnod y disgwyl mewn gobaith. Neges fawr Adfent yw bod byd gwahanol yn bosibl, a'i bod yn bosibl i ni hefyd fod yn bobl newydd, wedi'n creu o'r newydd, yn Iesu Grist.

A'r sail sydd gennym am gredu hyn i gyd? Y Beibl: y Gair dwyfol a bywiol, sy'n ffynhonnell ffydd ac yn sylfaen gobaith. Y Gair sy'n cyhoeddi addewidion Duw yn Iesu Grist. Y Gair sy'n medru bywhau a goleuo a gosod yn rhydd ym mhob oes a chyfnod a chyflwr. Y Gair sy'n dal i fedru trawsnewid bywydau a herio grymoedd ac awdurdodau'r byd hwn mewn gwledydd sydd ynghanol terfysg ac anawsterau. Y Gair sydd ar gael i ni yn ein hiaith heddiw yng Nghymru. Y Gair y mae miloedd o Gristnogion o hyd yn dyheu am gael copi eu hunain ohono – yn China a mannau eraill. Y Gair y byddwn mor aml yn ei anghofio a'i anwybyddu. Dyma Air grymus yr Adfent!

Mae stori am ddisgybl yn gofyn i Rabbi Iddewig, 'Pryd y dylen ni wneud heddwch â Duw?' Ei ateb oedd, 'Un funud cyn iti farw.' Ond gofynnodd ei ddisgybl ifanc iddo, 'Sut fydda i'n gwybod fy mod i funud i ffwrdd o farw?' Ateb y Rabbi oedd, 'Fyddi di ddim YN gwybod; felly, gwna fe nawr!'

'Gwna fe nawr.' Yr Adfent, yn anad unrhyw adeg, yw'r amser i ni wneud heddwch â Duw, i roi'n hunain yn nwylo Duw, i ymddiried ynddo a chredu'i addewidion, fel y gallwn fod yn barod i ddathlu'r Nadolig ac wynebu her a chyfle a chyffro blwyddyn newydd.

Ar fore'r Nadolig fe fydd rhai ohonom yn mynd i oedfaon plygain (neu o leiaf oedfaon mwy plygeiniol nag arfer!). Y bore hwnnw efallai y bydd yn dywyll pan gyrhaeddwn ni'r oedfa a dim ond kannwyll yno i'n goleuo. Pan awn allan fe fydd y dydd wedi gwawrio. Bydd 'haul cyfiawnder' Duw yn Iesu'n disgleirio. Fe fydd yn Nadolig eto. A chawn ddathlu o newydd 'y Gair a wnaethpwyd yn gnawd', y Gair y 'gwelsom ei oleuni' – 'ar awr annisgwyl o'r dydd' (James Nicholas). Goleuni na all y tywyllwch byth 'ei drechu ef'.

Noel A. Davies